

Amlinelliad o'r broses ymgynghori statudol

Cam 1: Datblygu cynnig

Bydd cynnig cychwynnol yn cael ei ddatblygu a'i ystyried gan Gabinet y Cyngor. Mae Adran 2 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn nodi pryd y mae'n ofynnol dilyn y weithdrefn statudol.



Cam 2: Ystyriaeth gan y Cabinet

Cabinet y Cyngor yn ystyried y cynnig a chymeradwyaeth i ymgynghori.

Cam 3: Ymgynghori

Rhaid cyhoeddi dogfen ymgynghori ar wefan y Cyngor. Rhaid i'r ddogfen ymgynghori gael ei chyhoeddi ar ddiwrnod ysgol a rhaid rhoi o leiaf 42 diwrnod i ymgynghoreion ymateb i'r ddogfen, gydag o leiaf 20 o'r rhain yn ddiwrnodau ysgol. Rhaid i randdeiliaid a enwir yn adran 3.4 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) gael eu hysbysu trwy lythyr/e-bost.

Cam 4: Adroddiad ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad

Bydd adborth a gyflwynir yn ystod y cyfnod ymgynghori'n cael ei ystyried a bydd adroddiad ar yr ymatebion yn cael ei ddatblygu a'i gyflwyno i'r Cabinet i gael ei ystyried.

Cam 5: Ystyriaeth gan y Cabinet

Bydd y Cabinet yn ystyried yr adroddiad ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn penderfynu a ddylid cyhoeddi'r adroddiad a rhoi cymeradwyaeth i gyhoeddi'r cynnig ar ffurf hysbysiad statudol.

Cam 6: Hysbysiad statudol

Rhaid i'r hysbysiad statudol gael ei gyhoeddi ar ddiwrnod ysgol ac fel a nodir yn adran 4.1 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018).

Cam 7: Cyfnod gwrthwynebu

Mae gan unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu cynnig y cyfle i wneud hynny. Rhaid i wrthwynebiadau gael eu gwneud yn ysgrifenedig neu drwy'r e-bost a chael eu hanfon at y cynigydd cyn diwedd cyfnod o 28 diwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod y cyhoeddwyd yr hysbysiad.

Cam 8: Adroddiad gwrthwynebu

Dan adran 49 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 pan fo gwrthwynebiadau wedi dod i law rhaid i gynigwyr gyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol ac ymateb y cynigydd i'r gwrthwynebiadau hynny ("yr Adroddiad Gwrthwynebu").

Cam 9: Ystyriaeth gan y Cabinet

Y Cabinet yn ystyried yr adroddiad gwrthwynebu er mwyn penderfynu'n derfynol ar y cynnig.

Cam 10: Llythyr penderfyniad

Bydd cadarnhad o'r penderfyniad ac argaeledd adroddiad gwrthwynebu'n cael ei roi i randdeiliaid.